



CYNNIG CYFRANDDALIADAU MENTER Y RING - CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth yw dyddiad cau y cynnig cyfranddaliadau?

31/03/25

Beth yw'r targed ar gyfer codi arian drwy gyfranddaliadau?

£200,000. Bydd hyn yn talu am y les (56 mlynedd), ffioedd y trosglwyddiad, a chostau adnewyddu cychwynnol. Allwn ni ddim datgelu pris y les ar hyn o bryd, oherwydd sensitifrwydd masnachol.

Beth yw Menter y Ring?

Mae Menter y Ring yn Gymdeithas Budd Cymunedol (CBC), a'n pwrpas yw prynu les y Ring a rhedeg y dafarn er budd y gymuned. Rydyn ni wedi cofrestru gyda'r Financial Conduct Authority, a'n rhif CBC yw 9429.

Pam ei bod hi'n beth da i'r Ring fod yn dafarn gymunedol?

Mae prynu'r dafarn fel cymuned yn golygu ei bod yn ein dwylo ni, ac yn gallu cael ei rhedeg fel ydyn ni eisiau. Mae'n gyfnod heriol i dafarndai, ond mewn dwylo cymunedol bydd ffynonellau arian ar gael - drwy grantiau ac ati - sydd ddim ar gael o dan berchnogaeth breifat. Mae'n fodel sydd wedi profi'n llwyddiannus mewn sawl cymuned dros Wynedd a thu hwnt.

Beth sy'n digwydd pan fydda i'n prynu siârs?

Mae prynu cyfranddaliadau (siârs) yn eich gwneud yn aelod o'r Gymdeithas. Bydd pob aelod yn cael un bleidlais yng nghyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas. Un pleidlais i bob aelod, waeth beth yw maint eich cyfranddaliad.

Pwy all brynu cyfranddaliadau?

Unrhyw un! Rydyn ni yn croesawu buddsoddiadau gan bawb - pobl leol, ac o bob rhan o Gymru a thu hwnt - beth bynnag yw eich cysylltiad â'r Ring, hyd yn oed os na fuoch chi yno erioed (eto)! rhaid bod yn 16 i brynu cyfranddaliadau, ond mae modd hefyd prynu ar ran plant o dan 16 (gweler cwestiynau isod am fwy o wybodaeth).

Pwy sy'n rhedeg Menter y Ring?

Caiff y Fenter ei rhedeg gan bwyllgor rheoli, sydd i gyd yn wirfoddolwyr. Yn y cyfarfod blynyddol cyffredinol (AGM) cyntaf, bydd cyfle i bleidleisio pwy sydd ar y pwyllgor, ac ymgeisio i fod ar y pwyllgor eich hun, os ydych chi eisiau. Mae lle i 12 aelod ar y pwyllgor. Aelodau presennol y pwyllgor yw:

Dafydd Emlyn Thomas (Cadeirydd), Eleri Stockwell (Is-gadeirydd), Bethan Gritten (Trysorydd), Susan Walton (Ysgrifennydd), Osian Gruffydd (Is-ysgrifennydd), Gwyndaf Hughes, Leonie Hughes, Patrick Hughes, Gwennan Mair Jones, Frazer Moore, Jack Peyton. Mae mwy o wybodaeth am yr aelodau yn y cynllun busnes.

Faint o arian alla i fuddsoddi?

Gallwch fuddsoddi unrhyw swm o £100, i fyny at £20,000. Mae pob cyfran (siâr) werth £1, felly yr isafswm ar gyfer cyfranddaliad yw 100 siâr.

Sut mae prynu cyfranddaliadau?

Mae dwy ffordd o fuddsoddi:

1. Llenwi ffurflen syml ar ein gwefan - www.menteryringllanfrothen.com. Ar ôl cyflwyno'r ffurflen, byddwch yn derbyn e-bost gyda chyfarwyddiadau ar sut i dalu.
2. Llenwi ffurflen bapur, a'i chyflwyno yn Siop a Chaffi Llanfrothen. Gallwch dalu yn y siop gydag arian parod, neu anfon siec drwy'r post.

Pam fod rhaid buddsoddi gwerth o leiaf £100?

Mae ein targed yn un uchelgeisiol, ac fe benderfynwyd rhoi isafswm o £100 er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ni gyraedd y targed hwnnw, ond ar yr un pryd alluogi cymaint a phosib o bobl i fuddsoddi. Mae hyn yn cyd-fynd â thafarndai cymunedol eraill mewn cymunedau tebyg.

Pryd fydda i'n cael llog ar fy muddsoddiad?

Mae'r cynllun busnes yn datgan y bydd llog yn cael ei dalu ar ôl y drydedd flwyddyn lawn o fasnachu. Fydd hyn ddim ond yn digwydd os oes arian ar gael (h.y. os oes elw rhesymol yn cael ei wneud), a gallai fod yn fwy na thair blynedd.

Alla i werthu fy nghyfranddaliad?

Allwch chi ddim cyfnewid cyfranddaliadau, dim ond eu gwerthu nôl i'r Fenter.

Fydd dim modd i chi dynnu arian cyfranddaliad allan tan ar ôl 5 mlynedd o fasnachu. Wedi hynny bydd modd i chi dynnu hyd at 10% y flwyddyn, o roi 3 mis o rybudd i'r Fenter. Allwn ni ddim gwarantu hyn. Mae ein clo asedau yn datgan na fydd aelodau byth yn cael mwy o arian yn ôl na'u buddsoddiad gwreiddiol wrth dynnu arian allan.

Os nad oes sicrwydd o gael llog ar fuddsoddiad, beth yw'r pwynt buddsoddi?

Dydi buddsoddi mewn menter gymunedol ddim fel prynu siârs mewn cwmni preifat. Rydych chi'n buddsoddi, nid er mwyn yr arian, ond er mwyn y gymuned. Mae cael canolfan yng nghanol y pentref i bawb ddod at ei gilydd i gymdeithasu, mwynhau, gwario arian a bod yn rhan o fywyd diwylliannol yr ardal yn dda i'r gymuned, ac yn llesol i'r economi leol.

Alla i brynu cyfranddaliadau ar gyfer plentyn?

Gallwch! Mae buddsoddi yn y Ring yn anrheg gwych i'ch plentyn, ac yn fuddsoddiad yn eu dyfodol. Mae gan gymaint o blant y fro atgofion melys o dyfu fyny yn y Ring, rydyn ni am sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr un cyfleoedd.

Pwy sy'n cael y llog ar gyfranddaliad wedi'i brynu ar ran plentyn dan 16 oed?

Bydd taliadau llog (os oes rhai) yn cael eu casglu ar ran y plentyn, a'u rhyddhau ar ôl eu pen-blwydd yn 16. Cyfrifoldeb y sawl sy'n prynu ar ran plentyn, neu'r plentyn ei hun, yw dweud wrth y Fenter eu bod am dderbyn llog.

A fydd fy manylion personol yn cael eu rhannu gydag aelodau eraill sydd wedi buddsoddi, neu unrhyw un arall?

Na. Dim ond ein Trysorydd, Ysgrifennydd Aelodaeth a swyddog y wefan sy'n gallu gweld eich gwybodaeth bersonol. Mae'n bosibl y bydd angen i aelodau eraill y Pwyllgor weld yr wybodaeth yn achlysurol. Fydd eich manylion ddim yn cael eu rhannu gyda gweddill aelodau'r gymdeithas, nag unrhyw drydydd parti, a dim ond at ddibenion hyrwyddo'r Fenter fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon. Rydym yn cydymffurfio â deddfwriaeth GDPR.

Tuag at beth roedd yr benthyciadau yn mynd?

Roedd angen i ni sicrhau benthyciadau gan aelodau o'r gymuned er mwyn gallu dangos tystiolaeth fod digon o arian yn ein cyfrif banc. Maent yn fenthyciadau byr-dymor, a bydd rhaid i ni eu talu'n ôl o fewn blwyddyn. Nid yw'n fwriad i dalu am y brydles gyda'r arian hwn. *Mae angen i ni werthu cyfranddaliadau er mwyn talu am y Ring.*

Be sy'n digwydd os ydw i'n buddsoddi a'ch bod chi ddim yn cyrraedd y targed o £200,000? Be sy'n digwydd i fy arian i?

Rydyn ni'n hyderus y gallwn gyrraedd y targed, drwy annog y gymuned leol i fuddsoddi, a denu cyfranddalwyr o weddill Cymru a'r byd. Mae ymgyrch farchnata fawr yn mynd yn ei blaen i sicrhau hyn. Os y byddwn yn methu â chyrraedd y targed, byddwn yn edrych ar opsiynau eraill fel ceisio am fenthyciad (e.e. gan gorff fel WCVA) i dalu'r gwahaniaeth. Os nad oes opsiwn arall sy'n gweithio, byddwn yn talu'r holl gyfranddaliadau yn ôl.

Be sy'n digwydd ar ddiwedd y brydles o 56 mlynedd?

Ar ddiwedd y 56 mlynedd, bydd perchnogaeth y dafarn yn troslwyddo nôl i Stad Brondanw, os na allwn ddod i gytundeb newydd. Os yw'r fenter yn llwyddiant, rydym yn hyderus y gallwn ddod i ddealltwriaeth gyda'r Stad.

Ydi plant dan 16 yn cael pleidlais?

Na, rhaid bod dros 16 oed i gael pleidlais yng nghyfarfodydd blynyddol y fenter.

Beth yw'r rhagolygon ariannol yn y cynllun busnes?

Mae'r rhagolygon elw a cholled yn y cynllun busnes ar gyfer y Fenter (CBC) ac *nid* y dafarn ei hun - mae'r cynllun busnes wedi'i seilio ar y dybiaeth y bydd hwn yn fusnes ar wahan dan ofal tenant sy'n talu rhent.